


# Omnibws y Plant 2018

## Mynychu yn y celfyddydau unwaith y flwyddyn neu'n amlach

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, ar dâp sain ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

---

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®


*One Man Shoe*, Ysgol Gynradd Fwslimaidd Caerdydd a Jango Starr, Cynllun Hyrwyddwyr Ifanc Noson Allan


## Cynnwys


Mynychiadau mewn Dramâu ..... 4
Mynychiadau mewn Sioeau Cerdd ..... 7
Mynychiadau mewn Operâu ..... 10
Mynychiadau mewn digwyddiadau Cerddoriaeth Glasurol ..... 13
Mynychiadau mewn digwyddiadau Cerddoriaeth Fyw arall ..... 16
Mynychiadau mewn digwyddiadau Dawns ..... 19
Mynychiadau mewn Orielau neu Arddangosfeydd Celf/Crefft ..... 22
Mynychiadau mewn Digwyddiadau Llenyddol ..... 25
Mynychiadau mewn Carnifalau a Chelfyddydau Stryd ..... 28
Atodiad 3: Diffiniadau o safleoedd cymdeithasol ..... 31
Atodiad 4: Holiadur Arolwg 2018 ..... 32


## Mynychiadau mewn Dramâu

- Mae mynychiadau plant a phobl ifanc mewn Dramâu unwaith y flwyddyn neu fwy wedi gostwng 0.8 pwynt canran ers 2017 i 47.7% yn 2018.
- Yn 2018, mynychodd mwy na hanner y plant a phobl ifanc o aelwydydd ABC1 Ddrama o leiaf unwaith y flwyddyn neu fwy. Ers 207, mae mynychiadau mewn Dramâu unwaith y flwyddyn neu fwy ymysg plant a phobl ifanc o aelwydydd ABC1 wedi gostwng -6.1 pwynt canran. Mae mynychiadau mewn Dramâu ymysg plant a phobl ifanc o aelwydydd C2DE wedi cynyddu 3.3 pwynt canran gan leihau'r bwlch o 14.1 pwynt canran yn 2017 i 4.7 pwynt canran yn 2018.
- Mynychodd mwy na hanner y benywod Ddrama unwaith y flwyddyn neu fwy. Mae mynychiadau benywod wedi codi 1.6 pwynt canran ers 2017 i 55.1%, ond mae mynychiadau gwrywod mewn Dramâu wedi gostwng 2.8 pwynt canran ers 2017 i 40.8%.














Mynychodd mwy na hanner (52.6%) y plant a phobl ifanc sy'n byw yn rhanbarth Canolbarth y De Ddramâu unwaith y flwyddyn neu fwy. Y ffigurau cyfatebol i'r De-orllewin yw 49.5%, i'r Gogledd 44.9% ac i'r De-ddwyrain 38.5%. Yn rhanbarthol, cafwyd y cynnydd mwyaf mewn mynychiadau yn y De-ddwyrain ers 2017, sef 2.7 pwynt canran i 38.5%, a chafwyd y gostyngiad mwyaf yn rhanbarth Canolbarth y De sef -4 pwynt canran.


Mae lefelau mynychiadau mewn Dramâu yn uwch ymysg plant a phobl ifanc sy'n siarad unrhyw faint o Gymraeg nag ymysg y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg. Mae'r bwlch rhwng y ddau grŵp yn dal i fod yn weddol debyg, sef 9.8 pwynt canran yn 2017 a 9.7 pwynt canran yn 2018.







Mae plant a phobl ifanc iau yn fwy tebygol o fynychu dramâu unwaith y flwyddyn neu'n amlach na phlant hŷn; 68.9% o blant 7-10 oed, 43.7% o'r rhai 11-15 oed a 30.1% o'r rhai 16-18 oed.


Mynychodd mwy na thri pumed o blant a phobl ifanc Ddramâu a drefnwyd gan ysgol/coleg yn ystod amser ysgol. Mae'r ffigur hwn wedi cynyddu 11.8 pwynt canran ers 2017 i 61.4%. Mae canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu Dramâu yn eu hamser eu hunain (heb eu trefnu gan ysgol/coleg) wedi gostwng 11.4 pwynt canran ers 2017 i 32.4%.





## Mynychiadau mewn Sioeau Cerdd

- Yn 2018, mynychodd mwy na chwarter y plant a phobl ifanc Sioeau Cerdd unwaith y flwyddyn neu fwy. Mae lefelau mynychiadau mewn Sioeau Cerdd wedi gostwng 0.3 pwynt canran ers 2017 i 28.5%.
- Ers 2017, mae mynychiadau mewn Sioeau Cerdd ymysg plant a phobl ifanc o aelwydydd ABC1 wedi gostwng 1 pwynt canran. Mae mynychiadau ymysg plant o aelwydydd C2DE wedi codi 0.1 pwynt canran, gan leihau'r bwlch ychydig o 14.9 pwynt canran yn 2017 i 13.8 pwynt canran yn 2018.
- Mynychodd mwy o fenywod nag o wrywod Sioeau Cerdd unwaith y flwyddyn neu fwy. Mae mynychiadau benywod wedi cynyddu 4.2 pwynt canran ers 2017 i 38.2% ond mae mynychiadau gwrywod mewn Sioeau Cerdd wedi gostwng 4.3 pwynt canran ers 2017 i 19.4%.














Roedd Canolbarth y De a'r De-orllewin â mynychiadau mewn Sioeau Cerdd uwch na'r cyfartaledd a'r lefelau uchaf o fynychiadau yn rhanbarthol sef 31.7%. Y ffigurau cyfatebol i'r De-ddwyrain yw 24.8% ac i'r Gogledd 22.4%. Yn rhanbarthol, y De-ddwyrain a welodd y cynnydd mwyaf mewn mynychiadau ers 2017 sef 5.5 pwynt canran, a Chanolbarth y De a welodd y gostyngiad mwyaf mewn mynychiadau sef -5.4 pwynt canran.

Mae lefelau mynychiadau mewn Sioeau Cerdd yn uwch ymysg plant a phobl ifanc sy'n siarad unrhyw faint o Gymraeg nag ymysg y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg. Mae'r bwlch rhwng y ddau grŵp wedi lleihau o 32.1 pwynt canran yn 2017 i 12.7 pwynt canran yn 2018.







Mynychodd mwy na thri phumed o blant a phobl ifanc Sioeau Cerdd yn eu hamser eu hunain (heb eu trefnu gan ysgol/coleg).


Mae canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu Sioeau Cerdd a drefnwyd gan ysgol/coleg wedi parhau'n gymharol sefydlog ers 2017 sef 28.5%.


Mae plant 7-10 oed yn fwy tebygol o fynychu Sioeau Cerdd unwaith y flwyddyn neu fwy na'r rhai 16-18 oed. Dywedodd mwy na thraean o'r plant 7-10 oed a mwy na chwarter o'r rhai 11-15 oed eu bod wedi mynychu Sioeau Cerdd unwaith y flwyddyn neu fwy o gymharu ag un ym mhob pump (21.7%) o'r rhai 16-18 oed.




## Mynychiadau mewn Operâu


- Mae mynychiadau plant a phobl ifanc mewn Operâu unwaith y flwyddyn neu'n amlach wedi gostwng 1.5 pwynt canran ers 2017 i 1.2% yn 2018.
- Ers 2017, mae mynychiadau mewn Operâu unwaith y flwyddyn neu fwy ymysg plant a phobl ifanc o aelwydydd ABC1 wedi gostwng 0.3 pwynt canran i 2.3%. Mae mynychiadau'r rhai o aelwydydd C2DE wedi gostwng 2.3 pwynt canran i 0.4%, gan syrthio'n is na mynychiadau 'r rhai o aelwydydd ABC1 unwaith yn rhagor ac felly ymestyn y bwlch rhwng y ddau fath o aelwyd, o 0.1 pwynt canran yn 2017 i 1.9 pwynt canran yn 2018.
- Ar gyfartaledd, mynychodd mwy o wrywod Operâu unwaith y flwyddyn neu fwy na benywod. Mae mynychiadau gwrywod wedi cynyddu 0.2 pwynt canran ers 2017 i 1.6%, ond mae mynychiadau benywod wedi gostwng 3.2 pwynt canran ers 2017 i 0.9%.








Roedd gan ranbarthau Canolbarth y De a’r De-orllewin fynychiadau uwch na’r cyfartaledd a’r ganran uchaf o fynychiadau plant a phobl ifanc mewn Operâu unwaith y flwyddyn neu fwy yn sef 1.4%. Y canrannau cyfatebol i’r Gogledd oedd 1.0% ac i’r De-ddwyrain 0.8%. Gwelwyd gostyngiadau mewn mynychiadau yn yr holl ranbarthau ers 2017, a’r De-orllewin a welodd y gostyngiad mwyaf sef 2.9 pwynt canran.





Mae lefelau mynychiadau mewn Operâu ymysg y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg wedi gostwng 2.5 pwynt canran ers 2017 i 0.5%,gan syrthio’n is unwaith eto na’r mynychiadau ymysg y rhai sy’n siarad unrhyw faint o Gymraeg. Mae lefelau mynychiadau mewn Operâu ymysg siaradwyr Cymraeg wedi cynyddu 0.3 pwynt canran i 2.4%.




Am y tro cyntaf ers tair blynedd, roedd lefelau uwch o fynychiadau mewn Operâu (unwaith y flwyddyn neu fwy) ymysg y rhai 16-18 oed nag ymysg plant iau; 1.9% o'r rhai 16-18 oed, 1.0% o'r rhai 11-15 oed a 1.0% o'r rhai 7-10 oed.


Roedd y lefelau uchaf o fynychiadau mewn Operâu (67.5%) ymysg plant a phobl ifanc yn eu hamser eu hunain (heb eu trefnu gan ysgol/coleg).


Mynychodd 0% Opera a drefnwyd gan ysgol/coleg (y tu allan i oriau ysgol) a mynychodd bron traean Opera a drefnwyd gan ysgol/coleg yn ystod oriau ysgol.





## Mynychiadau mewn digwyddiadau Cerddoriaeth Glasurol

- Mae mynychiadau mewn digwyddiadau Cerddoriaeth Glasurol unwaith y flwyddyn neu fwy ymysg plant a phobl ifanc wedi gostwng 2.7 pwynt canran ers 2017, i 5.8% yn 2018.
- Ers 2017, mae mynychiadau mewn digwyddiadau Cerddoriaeth Glasurol unwaith y flwyddyn neu fwy ymysg plant a phobl ifanc o aelwydydd ABC1 wedi gostwng 2.9 pwynt canran. Mae mynychiadau'r rhai o aelwydydd C2DE wedi gostwng 2.6 pwynt canran, gan leihau'r bwlch ychydig o 6.5 pwynt canran yn 2017 i 6.2 pwynt canran yn 2018.
- Ar gyfartaledd, mynychodd mwy o fenywod na gwrywod ddigwyddiadau Cerddoriaeth Glasurol unwaith y flwyddyn neu fwy. Cafwyd gostyngiad yn y ddau grŵp rhywedd ers 2017; 4 pwynt canran i fenywod a 1.4 pwynt canran i wrywod.










Yn rhanbarthol, gan y De-orllewin roedd y ganran uchaf o blant a phobl ifanc a fynychodd ddigwyddiadau Cerddoriaeth Glasurol unwaith y flwyddyn neu fwy sef 6.7%. Y canrannau cyfatebol i Ganolbarth y De yw 6.2%, i'r Gogledd 5.1% ac i'r De-ddwyrain 4.4%. Gwelwyd gostyngiad mewn mynychiadau ym mhob rhanbarth ers 2017, a gwelwyd y gostyngiad mwyaf yn rhanbarth Canolbarth y De sef 4.7 pwynt canran.


Mae lefelau mynychiadau mewn digwyddiadau Cerddoriaeth Glasurol ymysg y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg wedi gostwng 3.6 pwynt canran ers 2017 i 4.7%. Mae lefelau mynychiadau mewn digwyddiadau Cerddoriaeth Glasurol ymysg y rhai sy'n siarad unrhyw faint o Gymraeg wedi gostwng 1.1 pwynt canran i 7.7%.



Yn 2018, er y cafwyd gostyngiad yn y mynychiadau mewn digwyddiadau Cerddoriaeth Glasurol unwaith y flwyddyn neu fwy ym mhob grŵp oedran, roedd lefelau uwch o fynychiadau yn y grŵp 11-15 oed sef 6.1%. 5.7% oedd y ganran gyfatebol i'r rhai 16-18 oed a 5.6% i'r rhai 7-10 oed.


Roedd mwy na hanner (53.3%) o fynychiadau plant a phobl ifanc mewn digwyddiadau Cerddoriaeth Glasurol unwaith y flwyddyn neu fwy yn eu hamser eu hunain (heb eu trefnu gan ysgol/coleg).


Mae canran y plant a phobl ifanc a fynychodd ddigwyddiadau Cerddoriaeth Glasurol unwaith y flwyddyn neu fwy, a drefnwyd gan ysgol/coleg yn ystod oriau ysgol, wedi cynyddu 5.7 pwynt canran i 38.7%.





## Mynychiadau mewn digwyddiadau Cerddoriaeth Fyw arall

- Mae mynychiadau plant a phobl ifanc mewn digwyddiadau Cerddoriaeth Fyw arall unwaith y flwyddyn neu fwy wedi gostwng 1.1 pwynt canran ers 2017 i 38.9%.
- Ers 2017, mae mynychiadau mewn digwyddiadau Cerddoriaeth Fyw arall gan blant a phobl o aelwydydd ABC1 wedi cynyddu 2.4 pwynt canran i 45.9%. Mae mynychiadau'r rhai o aelwydydd C2DE wedi gostwng 3.8 pwynt canran i 33.4% ac felly wedi cynyddu'r bwlch o 6.5 pwynt canran yn 2017 i 12.5 pwynt canran yn 2018.
- Mynychodd mwy o fenywod na gwrywod ddigwyddiadau Cerddoriaeth Fyw arall unwaith y flwyddyn neu fwy. Mae mynychiadau benywod mewn digwyddiadau Cerddoriaeth Fyw arall wedi cynyddu 1.1 pwynt canran ers 2017 i 44.1%. Mae mynychiadau gwrywod mewn digwyddiadau Cerddoriaeth Fyw arall wedi gostwng 3.0 pwynt canran i 34%.














Rhanbarth Canolbarth y De oedd â'r ganran uchaf o fynychiadau gan blant a phobl ifanc mewn digwyddiadau Cerddoriaeth Fyw arall unwaith y flwyddyn neu fwy sef 43.9%. Y canrannau cyfatebol i'r De-orllewin oedd 40%, i'r Gogledd 34.2% ac i'r De-ddwyrain 33.1%. Cafwyd y gostyngiad mwyaf ers 2017 yn rhanbarth y De-ddwyrain sef 3.1 pwynt canran, a gwelwyd ychydig o gynnydd, sef 0.8 pwynt canran, yn rhanbarth Canolbarth y De.


Mae lefelau mynychiadau mewn digwyddiadau Cerddoriaeth Fyw arall ymysg y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg wedi gostwng 5.7 pwynt canran ers 2017 i 33.7% - y lefel isaf ers 2015, ac unwaith eto'n is na'r mynychiadau ymysg y rhai sy'n siarad unrhyw faint o Gymraeg. Mae lefelau mynychiadau mewn digwyddiadau Cerddoriaeth Fyw arall ymysg y rhai sy'n siarad unrhyw faint o Gymraeg wedi cynyddu 7.2 pwynt canran i 47.5%.







Yn 2018, dywedodd mwy na hanner (51.7%) o'r rhai 16-18 oed a holwyd eu bod yn mynychu digwyddiadau Cerddoriaeth Fyw arall unwaith y flwyddyn neu fwy. Y ffigur cyfatebol i'r rhai 11-15 oed yw 35.1% ac i'r rhai 7-10 oed yw 32.5%.


Dywedodd naw ym mhob deg o blant a phobl ifanc eu bod wedi mynychu digwyddiadau Cerddoriaeth Fyw arall yn eu hamser eu hunain (heb eu trefnu gan ysgol/coleg). Roedd 6.6% wedi mynychu digwyddiadau Cerddoriaeth Fyw arall a drefnwyd gan ysgol/coleg yn ystod oriau ysgol.





## Mynychiadau mewn digwyddiadau Dawns

- Mae mynychiadau plant a phobl ifanc mewn digwyddiadau Dawns unwaith y flwyddyn neu fwy wedi cynyddu 1.4 pwynt canran ers 2017 i 21.2% yn 2018.
- Ers 2017, mae mynychiadau mewn digwyddiadau Dawns ymysg plant a phobl ifanc o aelwydydd ABC1 wedi gostwng 0.8 pwynt canran i 23.6%. Mae mynychiadau'r rhai o aelwydydd C2DE wedi cynyddu 3.0 pwynt canran i 19.4% - y lefelau uchaf ers 2015. Felly mae'r bwlch wedi lleihau o 8.0 pwynt canran yn 2017 i 4.2 pwynt canran yn 2018.
- Mynychodd mwy o fenywod na gwrywod ddigwyddiadau Dawns unwaith y flwyddyn neu fwy. Mae mynychiadau benywod wedi cynyddu 3.5 pwynt canran ers 2017 i 30.1%, ac mae mynychiadau gwrywod wedi gostwng 0.4 pwynt canran i 12.9%.














Y De-orllewin oedd â'r ganran uchaf o blant a phobl ifanc a fynychodd ddigwyddiadau Dawns unwaith y flwyddyn neu fwy (25.6%). Y canrannau cyfatebol i Ganolbarth y De yw 21.1%, i'r Gogledd 19.6% ac i'r De-ddwyrain 16.3%. Cafwyd y cynnydd mwyaf ers 2017 yn rhanbarth y Gogledd sef 6.0 pwynt canran, a gwelwyd y gostyngiad mwyaf yn rhanbarth Canolbarth y De sef 4.0 pwynt canran.

Mae lefelau mynychiadau mewn digwyddiadau Dawns ymysg y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg wedi cynyddu 0.7 pwynt canran ers 2017 i 18.8% - yr uchaf ers 2014. Mae lefelau mynychiadau mewn digwyddiadau Dawns ymysg y rhai sy'n siarad unrhyw faint o Gymraeg wedi cynyddu 2.4 pwynt canran i 25.3%.







Yn 2018, cafwyd cynnydd yn nifer y mynychiadau mewn digwyddiadau Dawns unwaith y flwyddyn neu fwy yn yr holl grwpiau oedran. Cafwyd y cynnydd mwyaf mewn mynychiadau ymysg y rhai 11-15 oed, i fyny 2.3 pwynt canran i 21.7%, 0.1 pwynt canran o gynnydd i 26.3% ymysg y rhai 7-10 oed, a 1.6 pwynt canran o gynnydd i 15.1% ymysg y rhai 16-18 oed.


Mae canran y plant a phobl ifanc a fynychodd ddigwyddiadau Dawns yn eu hamser eu hunain (heb eu trefnu gan ysgol/coleg) wedi cynyddu 1.5 pwynt canran ers 2017 i 70.1%.


Mynychodd un ym mhob pedwar o blant a phobl ifanc ddigwyddiad Dawns a drefnwyd gan ysgol/coleg yn ystod oriau ysgol.





## Mynychiadau mewn Orielau neu Arddangosfeydd Celf/Crefft

- Mae nifer mynychiadau plant a phobl ifanc mewn Orielau neu Arddangosfeydd Celf/Crefft wedi codi 3.2 pwynt canran ers 2017 i 42.4%.
- Yn 2018, dywedodd mwy na hanner (52.1%) o'r plant a phobl ifanc o aelwydydd ABC1 a holwyd eu bod wedi mynychu Oriel neu Arddangosfa Gelf/Crefft unwaith y flwyddyn neu fwy. Mae lefelau mynychiadau ymysg plant a phobl ifanc o aelwydydd ABC1 wedi cynyddu 5.9 pwynt canran i 52.1% - y nifer fwyaf o fynychiadau a gofnodwyd erioed. Mae nifer mynychiadau'r rhai o aelwydydd C2DE wedi cynyddu 0.8 pwynt canran – y nifer fwyaf o fynychiadau a gofnodwyd erioed. Mae'r gwahaniaeth rhwng lefelau mynychiadau'r ddau grŵp wedi tyfu o 12.4 pwynt canran yn 2017 i 17.5 pwynt canran yn 2018.
- Mae nifer mynychiadau mewn Orielau/Arddangosfeydd Celf/Crefft unwaith y flwyddyn neu fwy wedi cynyddu ar draws y ddau rywedd. Mae mynychiadau benywod wedi cynyddu 0.8 pwynt canran ers 2017 i 44.2% ac mae mynychiadau gwrywod wedi cynyddu 5.4 pwynt canran i 40.6%.














Rhanbarth Canolbarth y De a welodd y ganran uchaf o blant a phobl ifanc a fynychodd Oriel neu Arddangosfa Gelf/Crefft unwaith y flwyddyn neu fwy sef 45.0%. Y canrannau cyfatebol i'r De-orllewin yw 42.8%, i'r De-ddwyrain 42.7% ac i'r Gogledd 37.5%. Cafwyd y cynnydd mwyaf ers 2017 yn rhanbarth y De-ddwyrain sef 1.9 pwynt canran.


Mae lefelau mynychiadau mewn Orielau/Arddangosfeydd Celf/Crefft ymysg y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg wedi cynyddu 4.5 pwynt canran ers 2017 i 40.7%, y lefel uchaf a gofnodwyd erioed. Mae lefelau mynychiadau mewn Orielau/Arddangosfeydd Celf/Crefft ymysg y rhai sy'n siarad unrhyw faint o Gymraeg wedi gostwng 1 pwynt canran i 45.1%, gan leihau'r bwlch o 7.9 pwynt canran yn 2017 i 4.4 pwynt canran yn 2018.







Yn 2018, gwelwyd cynnydd yn nifer y mynychiadau mewn Orielau/Arddangosfeydd Celf/Crefft unwaith y flwyddyn neu fwy ym mhob grŵp oedran. Cafwyd y cynnydd mwyaf sef 6.2 pwynt canran ymysg y rhai 7-10 oed, gyda mwy na hanner ohonynt (57.2%) yn mynychu unwaith y flwyddyn neu fwy. Mae ffigur y grŵp 16-18 oed i fyny 3.4 pwynt canran i 29.6% a mynychiadau'r grŵp 11-15 oed i fyny 0.7 pwynt canran i 39.9%.


Gan fwyaf, mynychodd plant a phobl ifanc orielau/arddangosfeydd celf/crefft a drefnwyd yn eu hamser eu hunain (heb eu trefnu gan ysgol/coleg) (61.4%). Mae canran y plant a phobl ifanc sy'n mynychu Orielau/Arddangosfeydd Celf/Crefft a drefnwyd gan ysgol/coleg yn ystod oriau ysgol wedi cynyddu 9.6 pwynt canran ers 2017 i 34%.





## Mynychiadau mewn Digwyddiadau Llenyddol

- Yn 2018, cododd nifer mynychiadau plant a phobl ifanc mewn Digwyddiadau Llenyddol 2.4 pwynt canran ers 2017 i 26.2%, gyda mwy nag un ym mhob pedwar yn mynychu digwyddiadau unwaith y flwyddyn neu fwy.
- Ers 2017, mae mynychiadau mewn Digwyddiadau Llenyddol ymysg plant a phobl ifanc o aelwydydd ABC1 wedi cynyddu 5.5 pwynt canran i 30.2% ac mae mynychiadau'r rhai o aelwydydd C2DE wedi aros yr un peth sef 23.1%. Mae'r gwahaniaeth o ran canran y ddau grŵp wedi tyfu o 1.6 pwynt canran yn 2017 i 7.1 pwynt canran yn 2018.
- Mae mynychiadau benywod a gwrywod mewn Digwyddiadau Llenyddol unwaith y flwyddyn neu fwy wedi cynyddu. Cynyddodd mynychiadau benywod 0.7 pwynt canran ers 2017 i 27%, a mynychiadau gwrywod 4.1 pwynt canran i 25.4%.














Y De-orllewin a welodd y ganran uchaf o blant a phobl ifanc yn mynychu Digwyddiadau Llenyddol unwaith y flwyddyn neu fwy sef 30.8%. Y canrannau cyfatebol i'r De-ddwyrain yw 26.6%, i Ganolbarth y De 25.9% ac i'r Gogledd 20.5%. Rhanbarth y De-orllewin a welodd y cynnydd mwyaf o 9.1 pwynt canran ers 2017, a'r Gogledd a welodd y gostyngiad mwyaf sef 2.9 pwynt canran.


Mae lefelau mynychiadau mewn Digwyddiadau Llenyddol ymysg y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg wedi cynyddu 2 bwynt canran ers 2017 i 23.5%. Mae lefelau mynychiadau mewn Digwyddiadau Llenyddol ymysg y rhai sy'n siarad unrhyw faint o Gymraeg wedi cynyddu 3 phwynt canran i 30.6%. Mae lefelau mynychiadau rhwng y ddau grŵp wedi cynyddu o 6.1 pwynt canran yn 2017 i 7.1 pwynt canran yn 2018.







Yn 2018, gwelwyd cynnydd yn nifer y mynychiadau mewn Digwyddiadau Llenyddol unwaith y flwyddyn neu fwy ym mhob grŵp oedran. Cafwyd y cynnydd mwyaf yn y grŵp 11-15 oed, sef 3.3 pwynt canran i 21.9%. Y ffigurau cyfatebol i'r grŵp 16-18 oed yw 2.6 pwynt canran o gynnydd i 7.8% ac 1 pwynt canran o gynnydd i 48.7% i'r grŵp 7-10 oed.


Mae plant a phobl ifanc yn fwy tebygol o fynychu digwyddiadau llenyddol a drefnwyd gan ysgol/coleg yn ystod oriau ysgol (59.7%). Mynychodd 30.5% ohonynt ddigwyddiadau llenyddol yn eu hamser eu hunain (heb eu trefnu gan ysgol/coleg).





## Mynychiadau mewn Carnifalau a Chelfyddydau Stryd

- Dywedodd mwy na hanner y plant a phobl ifanc a holwyd eu bod wedi mynychu digwyddiadau Carnifalau a Chelfyddydau Stryd unwaith y flwyddyn neu fwy. Mae'r ffigur hwn wedi cynyddu 4 pwynt canran ers 2017 i 54.9%.
- Ers 2017, mae mynychiadau mewn Carnifalau a Chelfyddydau Stryd ymysg plant a phobl ifanc o aelwydydd ABC1 wedi cynyddu 3.9 pwynt canran i 55.6%, a mynychiadau'r rhai o aelwydydd C2DE wedi cynyddu 4.2 pwynt canran i 54.3%. Mae'r gwahaniaeth rhwng canrannau'r ddau grŵp wedi lleihau o 1.8 pwynt canran yn 2017 i ddim ond 1.3 pwynt canran yn 2018.
- Mae mynychiadau benywod a gwrywod mewn digwyddiadau Carnifalau a Chelfyddydau Stryd unwaith y flwyddyn neu fwy wedi cynyddu, gyda mwy o wrywod yn eu mynychu. Mae mynychiadau benywod wedi cynyddu 1 pwynt canran i 55.6%. Mae mynychiadau gwrywod wedi cynyddu 6.9 pwynt canran ers 2017 i 55.2%.














Y De-orllewin a welodd y ganran uchaf o blant a phobl ifanc a fynychodd Garnifalau a Chelfyddydau Stryd unwaith y flwyddyn neu fwy sef 71%. Y canrannau cyfatebol i'r De-ddwyrain yw 51.6%, i'r Gogledd 50.2% ac i Ganolbarth y De 46.3%. Cafwyd y cynnydd mwyaf ers 2017 yn rhanbarth y De-orllewin sef 8.7 pwynt canran.


Mae lefelau mynychiadau mewn Carnifalau a Chelfyddydau Stryd ymysg siaradwyr Cymraeg wedi gostwng 2.4 pwynt canran ers 2017 i 50.4%. Mae mynychiadau ymysg y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg wedi cynyddu 1.7 pwynt canran ers 2017 i 51.4% – cyfraddau sy'n uwch na'r rhai ar gyfer siaradwyr Cymraeg.






Yn 2018, gwelwyd cynnydd ym mhob grŵp oedran yn nifer y mynychiadau mewn Carnifalau a Chelfyddydau Stryd unwaith y flwyddyn neu fwy o gymharu â 2017. Cafwyd y cynnydd mwyaf yn y grŵp 16-18 oed - i fyny 8.1 pwynt canran i 51.4%, gyda 3.7 pwynt canran o gynnydd i 54.1% i'r grŵp 11-15 oed, ac 0.8 pwynt canran o gynnydd i 59.2% i'r grŵp 7-10 oed.

Mae plant a phobl ifanc yn fwy tebygol o fynychu Carnifalau a Chelfyddydau Stryd yn eu hamser eu hunain (heb eu trefnu gan ysgol/coleg). Mae'r ganran hon wedi cynyddu 0.3 pwynt canran ers 2017 i 96.2% yn 2018. Mynychodd 2.3% o blant a phobl ifanc Garnifalau a Chelfyddydau Stryd a drefnwyd gan ysgol/coleg yn ystod oriau ysgol.



## Atodiad 3: Diffiniadau o safleoedd cymdeithasol

Gellir rhannu'r boblogaeth yn chwe grŵp economaidd-gymdeithasol neu safleoedd cymdeithasol, sy'n seiliedig ar alwedigaeth y prif enillydd incwm ar yr aelwyd. Mae gan bawb yn y cartref yr un safle cymdeithasol â'r prif enillydd incwm. I gynorthwyo dadansoddi, cyfunir yn aml y tri safle cyntaf a'r tri diwethaf yn grŵp ABC1 a grŵp C2DE ac ystyrir eu bod yn cyfateb i'r dosbarthiadau canol a'r dosbarthiadau gweithiol

A "y dosbarth canol uchaf "- rheolaethol, gweinyddol, proffesiynol uwch e.e. Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Cwmni, Uwch Was Sifil, Meddyg, Barnwr, Bargyfreithiwr, Cyfrifydd Gweithredol

B "y dosbarth canol"- rheolaethol gweinyddol, proffesiynol uwch a chanolradd, e.e. Athro Ysgol Uwchradd, Llyfrgellydd, Rhaglennwr Cyfrifiadurol, Swyddog Prawf, Gweithiwr Cymdeithasol

C1 "y dosbarth canol is "- goruchwylio, clerigol, rheolaethol is e.e. Gweithiwr Clerigol/Swyddfa, Goruchwyliwr Siop Llawr, Clerc Banc, Gwerthwr, Myfyriwr

**{ABC1au – swyddi proffesiynol, cymwys ac nad ydynt â llaw}**

C2 "y dosbarth gweithiol medrus"-gweithwyr llaw medrus e.e. Trydanwr, Saer Coed, Diffoddwr Tân, Goruchwyliwr

D "y dosbarth gweithiol"-gweithwyr llaw lled-fedrus a di-grefft e.e. Gweithiwr Siop, Gweithiwr Llinell mewn Ffatri, Casglwr Sbwriel, Negesydd, Gweithiwr Bar

E Y rhai sy'n gwbl ddibynnol ar fudd-daliadau'r wladwriaeth, gan gynnwys pobl sy'n ddi-waith yn yr hirdymor a phensiynwyr heb bensiynau preifat; Labrwr Achlysurol

**{C2DEau – gweithwyr llaw medrus, lled-fedrus a di-grefft a phobl nad ydynt yn gweithio}**

## Atodiad 4: Holiadur Arolwg 2018

### Cyngor Celfyddydau Cymru
### Cwestiynau terfynol Omnibws y Plant 2018

Dangos cerdyn

**Cwestiwn 1 Pa mor aml ydych chi'n mynd i bob un o'r gweithgareddau a ddarllenaf ichi?**

Felly, yn gyntaf, pa mor aml ydych chi'n

Mynd i ddramâu

... Sawl gwaith yr wythnos
... Unwaith yr wythnos
...2 neu 3 gwaith y mis
... Unwaith y mis
... Unwaith bob 2 i 3 mis
...2 neu 3 gwaith y flwyddyn
... Unwaith y flwyddyn
... Llai aml
... Byth

Ailadroddwch ar gyfer:

Mynd i sioeau cerdd
Mynd i'r opera
Mynd i gyngherddau cerddoriaeth glasurol
Mynd i gerddoriaeth fyw eraill
Mynd i berfformiadau dawns
Mynd i orielau neu arddangosfeydd celf neu grefft
Mynd i ddarlleniadau, adrodd straeon neu ddigwyddiadau llenyddol eraill
Mynd i garnifalau a chelfyddydau’r stryd

Dangos cerdyn
**Cwestiwn 2 Pan aethoch chi i ddrama ddiwethaf,** (gofynnwch am bob gweithgaredd sydd wedi'i fynychu o leiaf unwaith y flwyddyn yng Nghwestiwn 1) **a oedd y digwyddiad**:

wedi'i drefnu gan yr ysgol/coleg yn ystod amser ysgol?
wedi'i drefnu gan yr ysgol/coleg ond y tu allan i amser ysgol?
yn eich amser eich hun (heb ei drefnu gan yr ysgol/coleg)?

Ailadroddwch hyn am bob gweithgaredd a fynychwyd unwaith y flwyddyn neu'n amlach

Dangos cerdyn
**Cwestiwn 3 A pha mor aml ydych chi'n <u>cymryd rhan</u> ym mhob un o'r gweithgareddau a ddarllenaf ichi?**

Felly, yn gyntaf, pa mor aml ydych chi'n

Cymryd rhan mewn gweithgareddau cerddorol (megis canu neu chwarae offeryn)

... Sawl gwaith yr wythnos
... Unwaith yr wythnos
...2 neu 3 gwaith y mis
... Unwaith y mis
... Unwaith bob 2 i 3 mis
...2 neu 3 gwaith y flwyddyn
... Unwaith y flwyddyn
... Llai aml
... Byth

Ailadroddwch ar gyfer:

cymryd rhan mewn gweithgaredd drama neu theatrig (e.e. actio, cyfarwyddo, gwaith technegol)?
cymryd rhan mewn gweithgaredd dawns (heb gyfrif mynd i'r disgo/clwb nos)?
cymryd rhan mewn gwneud ffilm a fideo neu ffotograffiaeth?
cymryd rhan yn y celfyddydau gweledol neu grefftau (e.e. peintio, tecstilau)?
cymryd rhan yn y celfyddydau digidol (creu a gwneud celf gan ddefnyddio technoleg ddigidol e.e. uwchlwytho, creu neu adgymysgu cynnwys celfyddydol ar YouTube, Flickr, er enghraifft)?

cymryd rhan mewn ysgrifennu creadigol (e.e. barddoniaeth neu straeon)?

Dangos cerdyn
**Cwestiwn 4 Pan gymeroch chi ran ddiwethaf mewn gweithgaredd cerddorol** (gofynnwch am bob gweithgaredd y mae wedi cymryd rhan ynddo o leiaf unwaith y flwyddyn yng Nghwestiwn 3) **a oedd**:

yn yr ysgol/coleg yn ystod amser ysgol?
yn yr ysgol/coleg ond y tu allan i amser ysgol?
yn eich amser eich hun (heb ei drefnu gan yr ysgol/coleg)?

Ailadroddwch hyn am bob gweithgaredd y cymerwyd rhan ynddo unwaith y flwyddyn neu'n amlach